
Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Beicffordd 5.3
## Rhodfa Lawrenny




Gweledigaeth Trafnidiaeth Caerdydd yn cyflwyno cynllun deng mlynedd uchelgeisiol i fynd i'r afael a'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer yn y ddinas. Mae angen dinas â chysylltiadau da arnom, lle gall pawb deithio'n hawdd, yn ddibynadwy ac yn ddiogel i'w cyrchfannau yn y ffordd wyrddaf, iachaf a mwyaf fforddiadwy. Bydd cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol ac yn gwella ansawdd yr aer, gan wneud Caerdydd yn lle glanach i fyw a gweithio ynddo, gan ein helpu i fod yn iachach ac yn fwy egnïol.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynyddu lefelau teithio llesol yn sylweddol yn y ddinas ac mae newidiadau ar y gweill i flaenoriaethu beicio a cherdded, er enghraifft, drwy ddatblygu rhwydwaith o Feicffyrdd.

Yn y ddogfen hon, mae Cyngor Caerdydd yn ymgynghori ar y cynllun ar gyfer Beicffordd 5 - Rhodfa Lawrenny. Mae Beicffordd 5 wedi'i gynllunio i gysylltu Canol y Ddinas â chyrchfannau allweddol gan gynnwys Lecwydd, Stadiwm Dinas Caerdydd a De Orllewin Caerdydd.

Mae'r Beicffordd Dros Dro Traws-Ddinas presennol yn cysylltu canol y ddinas â chyffordd Stryd Wellington a Heol Lecwydd. Bydd y cysylltiad rhwng Stryd Wellington a Rhodfa Lawrenny yn cael ei ddatblygu fel rhan o astudiaeth barhaus o'r llwybr ar gyfer Beicffordd 5. Mae'r cyngor yn cynnig bwrw ymlaen â'r cynllun ar gyfer Rhodfa Lawrenny er mwyn cynorthwyo ysgolion yn yr ardal, sef Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Uwchradd Fitzalan.




Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Beicffordd 5.3

## Cefnogi ysgolion lleol

Bydd y Beicffordd 5 newydd arfaethedig yn creu cysylltiad o ganol y ddinas tua'r gorllewin a bydd ei lwybr ar hyd Rhodfa Lawrenny o fudd i ddisgyblion a staff Fitzalan, a rhai Ysgol Pwll Coch. Mae adran Rhodfa Lawrenny wedi'i blaenoriaethu i sicrhau y bydd ar waith pan fydd yr ysgol newydd yn agor gyda chroesfannau gwell i gerddwyr a beicwyr. Yn ogystal, bydd llwybr dros dro yn darparu'r cysylltiad ymlaen i ganol y ddinas. Ynghyd â digon o fannau diogel i gadw beiciau ar y safle a gwell cyfleusterau i fysiau, bydd y mesurau hyn yn annog pobl i deithio'n fwy egnïol a chynaliadwy ac yn gwella'r amgylchedd o amgylch yr ysgol.






Rydym hefyd yn gweithio gyda phob ysgol yng Nghaerdydd i lunio Cynllun Teithio Llesol, i alluogi pawb i gerdded a beicio i'r ysgol. Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig cyfle delfrydol i sicrhau bod cerdded a beicio yn cael eu hymgorffori mewn ysgolion newydd, drwy ddarparu seilwaith i alluogi hynny ar y safle ac yn y gymuned leol.

Ar gyfer Ysgol Uwchradd arfaethedig Fitzalan, mae'r ysgol eisoes wedi ysgrifennu ei Chynllun Teithio Llesol newydd ar y cyd â thimau Cynllun Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd y cyngor.

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Beicffordd 5.3
## Manylion y Cynllun




Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Beicffordd 5.3

## Sut i ymateb i gynigion y cynllun

Ymatebwch i’r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio’r ffurflen arolwg hon.
https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=162876879162

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn.

Defnyddir yr ymatebion i helpu i ysgrifennu’r adroddiad ymgynghori ac maent yn un o’r dulliau a ddefnyddir i lywio’r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 24/09/21

Rydym wedi creu tudalen bwrpasol ar gyfer y prosiect sef
https://keepingcardiffmoving.co.uk/cy/project/cycleway5_3

Os oes angen gwybodaeth ychwanegol nad yw wedi’i hateb yn y pecyn hwn, anfonwch e-bost i: polisitrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk